




# Siarad Dysgu Gwnëud

Pecyn Rhanddeiliaid  
Awst 2023



Helpwr  
Arian



Llywodraeth EM

# Beth yw Siarad Dysgu Gwneud?

## Rhowch sgiliau arian am oes i blant

**Siarad Dysgu Gwneud** Offeryn digidol yw (SDG) sy'n rhoi'r sgiliau a'r hyder i rieni a gofalwyr i siarad â'u plant am arian. Mae hefyd yn dangos pam ei bod yn bwysig addysgu arferion ariannol da o oedran cynnar.

Mae'n rhannu pynciau pwysig yn weithgareddau difyr a gwybodaeth gryno, megis arian poced, cynilo a theithiau siopa. Mae'n cynnwys profiadau bob dydd fel poeni a siopa ac mae'n cynnwys arian digidol. Mae gweithgaredd braf am ddeall dymuniadau ac anghenion.

Nid yw SDG yn ymwneud â sut i reoli arian. Mae'n ymwneud â chael sgysiau sy'n briodol i'w hoedran ag awgrymiadau a chymhorthion ar sut i wneud hyn.

Gall MaPS ddangos i chi sut i siarad â phlant 3 i 11 oed am arian.

Nid oes angen i hyn fod yn gymhleth – gall plant ddysgu am arian drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd.




# Elfennau o Siarad Dysgu Gwneud




## Sut i siarad â'ch plant am arian

Darganfyddwch sut i wneud dysgu am arian yn rhan hawdd o fywyd bob dydd



## Teithiau siopa gyda phlant

Triwch ein gweithgareddau i ddysgu plant am arian a'u diddanu tra rydych yn siopa.




## Sut i ddelio â phlagio

Triwch ein strategaethau i'ch helpu i aros gyda phenderfyniad ac osgoi ildio i blagio pan rydych allan.



## Arian poced a chynilo

Mae rhoi arian poced (hyd yn oed swm bach) yn helpu eich plentyn i ddysgu sut i reoli arian tra eu bod yn ifanc.



## Esbonio arian digidol i blant

Dysgwch eich plant am arian digidol gan ddefnyddio gweithgareddau syml fel gwneud siop bywd ar-lein.

**Gêm sticeri**

Mae dysgu'n gweithgaredd rhwng 'y pethau rydych eu heisio' a' 'pethau rydych eu hanger' i'ch plentyn yn eu helpu i ddeall pam nad ydych chi'n prynu popeth maent yn gofyn amdano. Mae'r gêm syml hon yn dangos i'ch plant pa rai o'r pethau rydych yn eu prynu sy'n 'y pethau rydych eu heisio' a' 'pethau rydych eu hanger'.

- Rhwch ddau law sticer i'ch plant - un am 'pethau rydych eu heisio' ac un am 'y pethau rydych eu hanger'.
- Gofynnwch iddynt fynd o gwmpas y cartref yn rhoi sticeri ar bethau sy'n 'pethau rydych eu heisio' a' 'pethau rydych eu hanger'.
- Pan maent wedi gorffen, gofynnwch iddynt ddiwedd wrthynt am y penderfyniadau maent wedi eu gwneud. Mae hwn yn gyfle da i siarad am ba bethau rydych chi'n meddwl sy'n eitemau hanfodol a pha bethau sy'n ddarllithion.

[moneyhelper.org.uk/talk-learn-do](https://moneyhelper.org.uk/talk-learn-do)

[helpwrarian.org.uk/siarad-dysgu-gwneud](https://helpwrarian.org.uk/siarad-dysgu-gwneud)

# Pam siarad â phlant am arian?

Mae arferion arian plant yn cael eu ffurfio yn iau nag yr ydych yn ei feddwl; hyd yn oed erbyn saith oed, mae plant wedi dechrau datblygu agweddau ac arferion ynghylch arian.

Mae siarad â phlant a phobl ifanc am arian o oedran cynnar yn eu helpu i ffurfio arferion da a fydd yn parhau am oes. Mae siarad yn agored am arian yn helpu plant i feithrin arferion ariannol iach ar gyfer cyfnod hwyrach mewn bywyd, ond mae ymchwil MaPS yn dangos mai dim ond 47% o blant 7-17 oed sy'n cael addysg ariannol gartref neu yn yr ysgol yn y DU, a dim ond traean o rieni (31%) sy'n debygol o siarad â'u plant os ydynt yn cael eu hunain mewn anhawster.

Gall hefyd helpu rhieni i wella eu lles ariannol eu hunain. Mae ymchwil MaPS yn dangos mai dim ond 56% o rieni sy'n honni eu bod yn teimlo'n hyderus wrth siarad â'u plant am arian. Mae astudiaethau sy'n gwerthuso fersiwn cynharach o Siarad Dysgu Gwneud wedi dangos bod rhai rhieni a gwblhaodd y gweithgaredd wedi'u hannog i gymryd camau i wella eu sefyllfa ariannol eu hunain.






# Eich rôl fel ymarferydd



**Gellir defnyddio SDG gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd mewn unrhyw rinwedd e.e. gofal teulu, gweithwyr cymdeithasol, addysg, gwaith ieuencid ac ati.**

Fel "negesydd" dibynadwy gall SDG eich helpu i ddarparu cymorth gwerthfawr i deuluoedd yn eich cymuned. Gallwch:

- gwella sgiliau rhianta cadarnhaol er mwyn rheoli ymddygiad yn fwy effeithiol a hybu sgiliau cymdeithasol, hunan-barch a hunanddisgyblaeth plant
- gwella perthnasoedd rhiant-plentyn a pherthnasoedd rhiant-rhiant
- cryfhau dealltwriaeth rhieni o ddatblygiad plant a meithrin eu gallu i fod yn fwy ymatebol i anghenion eu plant er mwyn hybu eu datblygiad a'u lles cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol
- cynyddu hyder rhieni yn eu rôl magu plant
- cynyddu hyder a sgiliau rhieni i ddarparu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref a chefnogi eu plentyn gyda'i ddysgu
- datblygu'ch sgiliau a'ch gwybodaeth gallu ariannol eich hun.



# Siarad am arian gartref – negeseuon allweddol i rieni/gofalwyr

Mae'r ffordd y mae rhieni a gofalwyr yn addysgu ac yn siarad am arian yn cael dylanwad enfawr ar sgiliau, gwybodaeth ac arferion ariannol plant. Gorau po gyntaf y byddwch yn dechrau, **ond gallwch wneud gwahaniaeth ar unrhyw oedran.**

Mae ymchwil yn dangos bod rhoi arian i blant a phobl ifanc yn rheolaidd, gosod rheolau ynghylch arian a rhoi rhywfaint o gyfrifoldeb iddynt am ddewisiadau ariannol oll yn cael effaith gadarnhaol.

Fodd bynnag, mae llai na 25% o blant yn profi'r tri o'r rhain gartref, ac nid yw pob rhiant yn teimlo'n hyderus wrth siarad am arian.



Mae'n bwysig:

- siarad am bwysigrwydd cynilo
- eu cynnwys mewn trafodaethau ynghylch gwariant teuluol
- dangos iddynt sut rydych yn rheoli'ch arian eich hun o ddydd i ddydd
- cael trafodaethau gyda'ch plant ynglŷn â'r ffaith bod cwmnïau'n ceisio gwerthu pethau iddynt mewn hysbysebion a rhai rhaglenni teledu

## Y 3 Rheol

 Rheolaidd

 Rheolau

 Cyfrifoldeb

# Sut i addysgu plant am arian

Mae plant yn dechrau dysgu am arian o blentyndod cynnar. Rhieni a gofalwyr sydd â'r dylanwad pwysicaf ar sut mae plant yn delio ag arian pan ydynt yn oedolion. Mae addysgu plant am arian yn eu helpu i reoli eu harian eu hunain wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae yna lawer o ffyrdd oedran-briodol o wneud hyn trwy ei gadw'n syml a'i wneud yn ddifyr.

Mae plant sy'n gwneud yn well gydag arian yn dueddol o fod â rhieni/gofalwyr sy'n siarad â nhw am arian ac yn rhoi cyfrifoldeb iddynt am wario a chynilo o oedran cynnar.

## Cymerwch amser i feddwl am eich arferion ariannol eich hun:

- A wnaethoch godi unrhyw rai o'ch arferion ariannol gan eich rhieni neu'r rhai a oedd yn rhoi gofal?
- Pa arferion ariannol da allwch eu holrhain i ddysgu yn eich plentyndod?
- Pa arferion arian gwael allwch eu holrhain i ddysgu yn eich plentyndod?


Peidiwch â phoeni os bydd eich plentyn yn gwneud camgymeriad ac yn gwario ei holl arian. Mae hon yn ffordd dda iawn o ddysgu. Os ydynt yn prynu tegan ac yn sylweddoli nad oes ganddynt arian ar gyfer rhywbeth arall, byddant yn gwybod sut i gynilo a dewis y tro nesaf.





a gefnogir gan y llywodraeth i helpu pawb i ddeall arian yn well.





# Siarad Dysgu Gwneud – enghraifft

Mae estron wedi dod i'r ddaear ac yn eich dilyn o gwmpas am rai dyddiau. Nid yw'n gwybod dim am arian, mae ganddo Cymraeg cyfyngedig a dealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r byd.

# Beth fyddent yn ei weld?

A fyddent yn gweld arian parod?  
Cardiau? Eich ffôn? Eich watsh?

A fyddent yn gweld  
biliau'n cael eu talu, neu'n  
eich gweld chi'n cynilo?

Beth fyddai'r estron  
yn ei ddysgu am arian  
o'ch gwyllo chi?

Beth fyddent yn ei feddwl  
am beiriannau arian parod?

Ble fyddent  
yn eich gweld  
yn defnyddio arian?


Beth fyddent yn ei  
feddwl am yr hyn  
maent yn ei weld?

Beth fyddai'n eu  
drysu?

Beth fyddai'n gwneud  
synnwyr iddyn nhw?


Sut olwg fyddai ar  
fancio neu siopa  
ar-lein?

A fyddent yn gweld o ble y daw  
eich arian mewn gwirionedd?




# Beth ellir ei addysgu am arian?

Mae pob plentyn yn wahanol, ond mae rhai cerrig milltir datblygiadol a all helpu i arwain yr hyn i'w haddysgu iddynt a phryd:



## Sut i siarad â phlant tair a phedair oed am arian

Gallwch ddechrau addysgu plant cyn oed ysgol am arian o'r adeg pan fyddant yn dechrau siarad a gofyn cwestiynau – pan fyddant yn cyffwrdd, yn ymchwilio ac yn chwarae gyda phopeth.




## Sut i siarad â phlant pump a chwe blwydd oed am arian

Maent yn dechrau datblygu dealltwriaeth ddyfnach o rifau a byddant yn gallu talu sylw am gyfnod hwy. Mae hyn yn ei gwneud yn oedran gwych i symud o chwarae i ddangos rheolaeth dda ar arian. Bydd angen iddo fod yn ddifyr o hyd – ond gallwch ddechrau integreiddio mwy o sgiliau sy'n ymwneud ag arian i fywyd bob dydd. Er enghraifft, cynilo ar gyfer tegau newydd neu droi siopa'n brofiad dysgu.





# Beth ellir ei addysgu am arian?



## Sut i siarad â phlant saith ac wyth oed am arian

Mae plant yn dechrau deall y gwahaniaeth rhwng dymuniadau ac anghenion. Mae hon yn oedran gwych i siarad am sut y gallant ddechrau cyflawni rhai o'r pethau y maent eu heisiau trwy ennill a chynilo.




## Sut i siarad â phlant naw i 12 oed am arian

Ar yr oedran hwn, mae plant eisiau annibyniaeth. Felly, gallwch ganolbwyntio ar eu cael i gymryd cyfrifoldeb am eu dewisiadau gwario a chynilo eu hunain.

Gall eu helpu i ddysgu sut i fod yn gyfrifol gyda'u harian hefyd roi tawelwch meddwl i chi wrth iddynt ddod yn fwy annibynnol yn eu penderfyniadau.







# Helpwch i baratoi rhieni – mae ychydig yn mynd yn bell



Gall fod yn anodd i rieni wybod sut i ddechrau sgwrs am arian gyda phlentyn neu berson ifanc, felly mae'n werth meddwl sut y gallwch eu helpu. Nid oes rhaid i hyn fod yn gymhleth – penderfynwch gyda'r teulu ar y pwyntiau sylfaenol yr hoffent eu cyfleu a'r gwerthoedd neu'r agweddau tuag at arian y maent yn credu sy'n bwysig i'w rhannu.

Mae hefyd yn werth nodi beth sy'n bwysig i'w teulu ar hyn o bryd – mae'n llawer mwy diddorol i blant gymryd rhan mewn penderfyniadau ariannol sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Er enghraifft, os ydynt yn cynilo ar gyfer rhywbeth arbennig, gallent ddangos rhai o'r pethau mae'r teulu'n torri'n ôl arnynt, fel prydau allan neu deithiau i'r sinema.


# Adnoddau sydd ar gael

Llyfryn rhieni

Canllawiau ar-lein

Fideo

Ar gyfer ymarferwyr sy'n darparu'r Siarad, Dysgu, Gwneud wyneb yn wyneb gwreiddiol, mae'r **pecyn hwylusydd** wedi'i ddiweddarau. Mae yna hefyd **asedau cysylltiedig**.



# Adnoddau sydd ar gael

## Adnoddau Ymarferwyr

Sut rydym yn cefnogi addysg ariannol mewn ysgolion

Canllawiau a phhecyn cymorth i ymarferwyr sy'n gweithio yn y gwasanaethau plant a phobl ifanc

Hyb Adnoddau Marc Ansawdd

Cynnal eich hun yn ariannol - canllaw ar gyfer oedolion ifanc 16 i 24 oed

Cymorth Ariannol ar gyfer Addysg Bellach

Arian Myfyrwyr a Graddedigion



## Cymorth HelpwrArian

Canllaw ar gyfer dechreuwyr ar reoli'ch arian

Y ffyrdd gorau o dalu biliau

Cynllunydd Cyllideb

Cymorth os ydych yn cael trafferth gyda dyledion.

Canllaw ar gyfer dechreuwyr i sgamiau

Cymorth gyda chostau byw

Mynd i'r afael â gamblo problemus a dyled

Benthycwyr Arian Didrwydded

Cysylltwch â MoneyHelper/HelpwrArian i gael Canllawiau Ariannol am ddim



0800 138 0555 (Cymraeg)

0800 138 7777 (Saesneg)

## Cysylltu â MaPS

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â MaPS ar:

[CYP@maps.org.uk](mailto:CYP@maps.org.uk)



Helpwr  
↳ Arian

Darparwyd gan



Gwasanaeth  
Arian a  
Phensiynau